Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 11eg Medi, 2018 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |

| | |
|---|---|
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 31 GORFFENNAF | | | 4 - 8 |
| 6 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS AMGYLCHEDD | Cyng. Dafydd Meurig | Dilwyn Williams | 9 - 45 |
| 7 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHRIAETH GWYNEDD | Cyng. Gareth Griffith | Dilwyn Williams | 46 - 54 |

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 31 GORFFENNAF 2018

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, W. Gareth Roberts, Gareth Thomas a Ioan Thomas

**Hefyd yn bresennol-** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)

Eitem 6: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd)
Eitem 7: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)
Eitem 8: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd), Aled Gibbard (Uwch Reolwr Gweithredol – Adnoddau Gofal, Plant a Chefnogi Teuluoedd), Bleddyn Jones (Rheolwr Trethi).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Gareth Griffith a'r Cyng. Craig ab Iago.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYS

Datganodd yr Arweinydd ei fod wedi cytuno i drafod dwy eitem frys er gwybodaeth brys.

1. Llongyfarchwyd Geraint Thomas ar ei fuddugoliaeth yn ras y Tour de France, Pennaeth y tîm Syr David Brailsford, yn enedigol o Wynedd. Diolchwyd I'r ddau am eu hymroddiad i'w gwlad ac ymfalchïwyd yn eu llwyddiant.

2. Adroddodd y Cynghorydd Peredur Jenkins fod y Cyngor wedi cael trafferthion gyda'i systemau cyfrifiadurol yn ystod yr wythnos diwethaf, ond llwyddwyd i adfer y systemau mewn trefn blaenoriaeth. Mynegwyd fod y cynllun adfer trychineb a'r dechnoleg berthnasol wedi bod yn allweddol wrth gael y prif systemau yn ôl. Ychwanegwyd fod Gwasanaeth TG y Cyngor yn parhau'n ddygn gyda'r gwaith o adfer rhai systemau, ac y bydd yn parhau i weithio i wella gwydnwch y systemau i'r dyfodol. Ymhellach, bydd y Pennaeth Cyllid yn comisiynu barn arbenigol annibynnol ar bensaernïaeth y dechnoleg er mwyn gweld a oes yna ffyrdd o osgoi sefyllfa debyg i'r dyfodol.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 03 GORFFENNAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 3 Gorffennaf 2018, fel rhai cywir

## 6. ADOLYGU LEFEL ADNODDAU GWASNAETH GWARCHOD Y CYHOEDD

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

1. Derbyn yr adroddiad

2. Cymeradwyo cyfeirio £70,000 o incwm presennol yr adran i gynyddu adnodd staffio er cyfarch gofynion gorfodaeth cyfraith bwyd yn unol â'r adroddiad. Gan ganiatáu'r Adran Amgylchedd i:

- Wireddu un o'r cynlluniau arbedion arfaethedig (yn ymwneud ag incwm yn sgil trefniadau cau ffyrdd) yn gynnar 9 y.h. gweithredu yn ystod 2018/19 yn hytrach nac erbyn 2019/20.
- Cynhaeafu £70,000 o incwm ychwanegol o'r cynllun arbediad hwnnw yn adrannol, ar gyfer gweithredu trosglwyddiad cyllideb barhaol er mwyn ariannu 2 swydd yn y gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adran yn gofyn i symud £70,000 o incwm presennol er mwyn gallu cyfarch gofynion gorfodaeth cyfraith bwyd yn dilyn adolygiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Nodwyd fod yr Uned Lles, Iechyd a Diogelwch y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn daprau'r gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd. Mynegwyd fod yr uned yn gyfrifol am orfodi gofynion diogelwch bwyd mewn dros 2000 o fusnesau bwyd yng Ngwynedd.

Yn dilyn ymarfer Her Gwynedd, nodwyd fod yr Adran Amgylchedd wedi derbyn toriad ariannol, ychwanegwyd fod ymgais wedi ei wneud gan yr Uned i weithio mewn ffyrdd gwahanol, ond bellach fod y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd dan

straen er mwyn cyrraedd holl ofynion gan gynnwys dyletswyddau archwilio bwyd newydd bellach mewn grym. Ychwanegwyd fod Asiantaeth Safonau Bwyd wedi datgan barn fod angen i'r Cyngor roi mwy o adnoddau tuag at archwilio hylendid bwyd a safonau bwyd. Pwysleisiwyd nad gofyn am arian mae'r Adran, ond yn gofyn am ddargyfeirio arian o fewn yr adran er mwyn cyflawni'r angen.
Tynnwyd sylw at farn y Swyddog Cyllid a oedd yn nodi fod y £70,000 yn cael ei gynhaeafu o ganlyniad i incwm ychwanegol sydd eisoes yn dod i law drwy newid sut yr ydym yn codi 'incwm am drefniadau cau ffyrdd'.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth
- Nodwyd fod yr adran wedi profi pwysau o arbed arian.
- Nodwyd fod angen yr adnodd gwrdd â'r anghenion.
- Cafwyd trafodaeth am y ddau fath o ffrwd gwaith sydd o fewn yr uned.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLOGAETH

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn llu o ystadegau defnyddiol am y Cyngor. Diolchwyd i staff gan ychwanegu ei bod wedi bod yn flwyddyn anodd ond fod y staff wedi gwneud popeth er mwyn sicrhau'r safon uchaf o wasanaeth i drigolion Gwynedd. Tynnwyd sylw at broffil oedran y staff gan nodi fod 64% o'r staff dros 40 mlwydd oed, ategwyd fod mwyafrif o'r Grŵp Rheoli Corfforaethol dros 50 mlwydd oed.

Nodwyd fod nifer dyddiau salwch staff y Cyngor wedi gostwng i 8.72 diwrnod y flwyddyn. Ychwanegwyd fod y Cyngor ymysg yr awdurdodau lleol isaf o ran dyddiau salwch ar draws Cymru. Esboniwyd fod y Cyngor bellach gam ymhellach o fod yn nes at dalu Cyflog Byw ar gyfer y rhai sydd ar Bwynt 8, sef lleiafswm cyflog y Cyngor. Erbyn Ebrill 2019, nodwyd y bydd yr isafswm cyflog o fewn y Cyngor yn uwch na'r Cyflog Byw.

Mynegwyd, fel y gwelir yn gyffredin o fewn cymdeithas, fod y bwlch cyflog rhwng merched a dynion yn bodoli o fewn y Cyngor yn ogystal. Ychwanegwyd fod Cynllun Busnes y Cyngor am y pum mlynedd nesaf yn ymchwilio i sut mae modd lleihau'r bwlch a hybu'r nifer o ferched sy'n cyrraedd y swyddi uchel o fewn y sefydliad.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth
- Ychwanegwyd bellach fod Arbenigwyr Addysg, a oedd yn gweithio ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn bellach yn aelodau staff Cyngor Gwynedd a bod Cyngor Môn yn prynu eu gwasanaeth gan y Cyngor.
- Nodwyd fod llawer o ffeithiau defnyddiol o fewn yr adroddiad a fydd yn

sylfaen ar gyfer gwelliannau'r Cyngor.

- Holwyd wrth edrych ar broffil oedran y Cyngor os oes modd gwneud proffil oedran ar gyfer y sir yn ogystal fod modd cymharu'r ystadegau.
- Mynegwyd fod nifer y swyddi wedi cynyddu a bod nifer uchel yn ymgeisio am swyddi, ond holwyd pam fod nifer o swyddi yn cael ei ail-hysbysebu. Nodwyd fod nifer uchel o'r swyddi sydd yn cael ei ail-hysbysebu yn rhai yn y maes gofal neu yn swyddi dros dro. Ychwanegwyd fod gwaith yn cael ei wneud yn benodol ar ddatblygu gweithlu.
- Trafodwyd Datblygu'r Arweinyddiaeth, gan holi sut mae'r Coleg Rheolwyr am ddatblygu arweinyddiaeth. Nodwyd gan y Cyngor ffocws ar arwain pobl yn hytrach 'na rheoli pobl a bod y Coleg Rheolwyr yn rhoi cefnogaeth i reolwyr ennill sgiliau arweinyddiaeth.

## 8. RHYDDHAD DEWISIOL RHAG TRETH CYNGOR I BOBL IFANC YN GADAEL GOFAL

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dilwyn Morgan a Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNWYD**

Yn unol â hawliau'r Cyngor dan Adran 12A(1)(c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, caniatáu eithriad llawn rhag talu Treth Cyngor i bobl ifanc yn gadael gofal tan y maent yn 25 mlwydd oed, ar ôl ystyried unrhyw ddisgowntiau, eithriadau a/neu ostyngiad Treth Cyngor y maent eisoes yn deilwng iddynt.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod ei bod yn bleser cyflwyno'r adroddiad hwn, nid yn unig fel aelod Cabinet ond fel cadeirydd Panel Rhiant Corfforaethol. Nodwyd fod yr adroddiad yn amlygu cydweithrediad rhwng adrannau. Ychwanegwyd mai cais gan Banel Rhiant Corfforaethol oedd yr adroddiad hwn a drwy gynnig y rhyddhad yma i'r bobl ifanc sydd yn gadael gofal mae'n gyfle i'w cynorthwyo a'u haddysgu am faterion ariannol ehangach.

Ychwanegwyd fod yr Adran Gyllid yn gefnogol iawn i'r adroddiad, gan ychwanegu yr amcangyfrifir na fydd caniatáu'r rhyddhad hwn yn costio mwy na £20,000 y flwyddyn i'r Cyngor. Esboniwyd fod hyblygrwydd ar gyfer ariannu cost y cynllun yn y gyllideb gorfforaethol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Ychwanegwyd nad oes sôn gan y Llywodraeth ar hyn o bryd am ariannu'r cynllun, ond fod y 22 sir yng Nghymru yn awyddus i gysoni hyn ac i roi pwysau ar y Llywodraeth i ysgwyddo'r baich yma.
- Mynegwyd fod angen cefnogi'r bobl ifanc sydd yn gadael gofal a bod cefnogaeth lawn i'r cynllun yma.

## 9. CAU ALLAN Y WASG AR GYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd ei fod yn ymwneud â gwybodaeth ynglyn a'g unigolyn penodol . Mae'r adroddiad yn son am faterion yn ymwneud a chyflogaeth aelod o staff, yn arbennig felly cais ymddeol yn gynnar na fydd yn cael ei benderfynu hyd derbyn sylwadau'r Cabinet. Oherwydd ystyrir fod y budd cyhoeddus o beidio datgelu'r wybodaeth yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i ddatgelu.

## 10. UWCH REOLAETH Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr eitem gan Dilwyn Williams

**PENDERFYNWYD**

Derbyn bwriad y Prif Weithredwr a'r sgil effeithiau a nodwyd yn yr adroddiad

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn nodi yn unol â threfniadau'r Cyngor fod yna hawl gan y Prif Weithredwr, yn ddarostyngedig i ofynion i ymgynghori a swyddogion ac achos busnes i benderfynu ar geisiadau ymddeoliad cynnar. Ychwanegwyd oherwydd bod y mater yn ymwneud ag Uwch Swyddog ymgynghorwyd a'r Cabinet hefyd ynglŷn â'r cais cyn dod i benderfyniad.

Nodwyd ym mis Mai eleni, penderfynodd y Cabinet y dylid cynnal arolwg o drefniadau rheolaethol y Cyngor ac mae'r trefniadau ar gyfer cyflawni hynny ar droed. Yn y cyfamser, mae'r Prif Weithredwr wedi derbyn cais gan un o'r Penaethiaid yn gofyn am ganiatâd i ymddeol yn gynnar (heb ostyngiad yn ei bensiwn) er mwyn hwyluso gallu'r cyngor i gyflawni arbedion. Er bod cost o gytuno i'r cais, byddwn yn adennill y gost o mewn 12 - 16 mis fan bellaf a byddai'r arbedion ar gael i gyfrannu tuag ar fwlch ariannol y Cyngor o ganol y flwyddyn ariannol nesaf ymlaen.

Diolchwyd i'r Pennaeth am ei wasanaeth Cyngor gan nodi y bydd y Cyngor yn colli ei holl brofiad yn y maes.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00 a daeth i ben am 14:00

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11eg o Fedi 2018 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

**1 CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys adrodd ar le mae'r mesurau perfformiad arni a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli a gynhaliwyd yn benodol at y pwrpas sydd hefyd yn cynnwys 2 gynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu perthnasol.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n hapus gyda pherfformiad y mesurau yr wyf yn gyfrifol amdanynt neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.

**2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

**3. PERFFORMIAD**

3.1 Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

2.2 Mae'r **Gwasanaeth Cynllunio** yn gyfrifol am hwyluso a rheoli datblygiadau er budd cymunedau, yr economi a'r amgylchedd.

2.3 'Rydw i wedi bod yn cadw golwg ar fesur perfformiad **Pa mor sydyn mae'r holl geisiadau ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu (C2)** wrth i'r perfformiad ar y mesur droi'n ansefydlog yn ystod dechrau'r flwyddyn hon. Mae'r perfformiad wedi bod yn neidio rhwng 56 diwrnod ac 81 diwrnod, gyda chyfartaledd cronnus o 71 diwrnod o'i gymharu â'r 59 diwrnod a adroddwyd yn y cylch blaenorol.

**Cyswllt:**
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

2.4 Rwyf wedi herio'r perfformiad ac mewn ymateb nododd y Gwasanaeth fod y perfformiad wedi ei ddylanwadu gan ychydig geisiadau oedd wedi cymryd cryn amser i'w penderfynu, gan gynnwys ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio a rhai ceisiadau a ohiriwyd gan y Pwyllgor. Nododd y Gwasanaeth hefyd fod swyddogion wedi bod yn gweithio'n galed i glirio ceisiadau oedd wedi bod yn y system am beth amser, sydd wedi cyfrannu at y codiad yn y cyfartaledd. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth yn ffyddiog fod newidiadau diweddar i'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio yn mynd i arwain at gyflymu penderfyniadau, gyda gwelliant yn y perfformiad yn dilyn hynny.

2.5 Mae **bodlonrwydd** gyda'r gwasanaeth yn parhau i fod yn weddol uchel (86% yn fodlon) gyda mynegiant o anfodlonrwydd yn cylchdroi o gwmpas gwrthod cais neu fethiant i gysylltu gyda'r gwasanaeth. Fe ddylai'r gwaith Ffordd Gwynedd sy'n mynd ymlaen dalu sylw i hyn (gweler 3.19 isod).

2.6 Dwi dal ddim yn grediniol ein bod wedi medru darganfod mesur addas ym maes gorfodaeth cynllunio ac mae yna waith yn mynd ymlaen i geisio cywiro hynny.

2.7 Pwrpas **Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd** yw cefnogi busnesau a gwarchod safonau iechyd cyhoeddus ac amgylcheddol a safonau masnach ar gyfer y cyhoedd a sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn cael ei darparu mewn ffordd sydd yn gwarchod y cyhoedd ac yn cefnogi busnesau. Mae mesur **Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd (G6)** yn nodi fod 98.92% o'r sefydliadau bwyd yn cydymffurfio, gyda dim ond 1.1% yn methu sef 24 busnes. Gyda rheini, mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r busnesau i gywiro'r sefyllfa.

2.8 Yn ddiweddar mae'r mesur ar gyfer **Canran y busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol â'r rhaglen (G2)** wedi ei newid i gynnwys arolygiadau hylendid bwyd, safonau bwyd ac iechyd anifeiliaid eiddo categori risg A (y categori risg uchaf) yn unig. Gwelir fod y gwasanaeth wedi gwneud dechrau cadarn i'r flwyddyn gan berfformio'n unol a'u rhaglen waith. Dylid nodi hefyd fod y busnesau sydd yn cael eu cyfri ym mesur **G2** hefyd yn cael eu cyfrif yn y mesurau eraill sydd yn ymwneud a hylendid a safonau bwyd.

2.9 Mae'r mesurau ar gyfer **canran y sefydliadau bwyd sydd wedi cael arolygiadau Hylendid Bwyd (G8) a Safonau Bwyd (G9),** ac yn dangos fod y gwasanaeth yn cael trafferth ymdopi gyda'r rhaglen waith. Mae 2.91% o'r sefydliadau yn rhaglen waith **G8** yn hwyr yn cael eu harolygu a 4.66% o'r sefydliadau yn rhaglen waith **G9,** a hynny ar ddechrau'r flwyddyn. Nododd y Gwasanaeth eu bod wedi treulio peth amser yn diweddaru cofnodion gwaith 2017-18 ar ddechrau'r flwyddyn, ac wedi ychwanegu'r sefydliadau na dderbyniodd arolygiad at raglen waith 2018-19.

2.10 Mae wedi dod i'r amlwg yn y misoedd diwethaf fod y Gwasanaeth yn methu ymdopi gyda'r llwyth gwaith disgwyliedig, oherwydd diffyg capasiti staff yn sgil toriadau dros y blynyddoedd diwethaf. Yn sgil hyn fe gawsom ymweliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd oedd yn mynegi pryder ein bod tu ôl iddi o ran ymweld â sefydliadau bwyd risg isel. Er mwyn cyfarch y sefyllfa o ddiffyg capasiti staff a chwrdd â gofynion yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ar y 31ain o Orffennaf bu i Aelodau eraill y Cabinet gefnogi fy nghynnig i wyro incwm uwch yr oedd yr Adran yn ei gyflawni tuag at greu 2 swydd barhaol er mwyn iddynt fedru ymdopi yn well gyda'r llwyth gwaith.

2.11 Dengys y wybodaeth ynghylch **Cyfartaledd y dyddiau a gymerir i benderfynu cais trwydded tacsi (G7)** fod y perfformiad wedi dirywio i 9.96 diwrnod o'i gymharu â 8.96 yn yr adroddiad diwethaf. Wedi i mi herio'r Gwasanaeth nodwyd fod

trwyddedau ar gyfer cwmnïau a cherbydau tacsis yn cael eu prosesu yn gyflym iawn - o fewn 2 ddiwrnod ar gyfartaledd. Yr hyn sy'n achosi'r cyfartaledd gynyddu yw'r ceisiadau ar gyfer trwyddedau gyrwyr. Yn ôl y Gwasanaeth, anaml maent yn derbyn cais cyflawn a pharod i'w brosesu, sydd yn ychwanegu oedi i'r broses. Yn aml hefyd mae angen cael tystysgrif DBS ac mae'r amser mae'r DBS yn ei gymryd i'w prosesu wedi cynyddu yn sylweddol ac yn arafach erbyn hyn nac y bu erioed o'r blaen. Yn ôl y Gwasanaeth aros am y dystysgrif DBS sy'n cyfrannu fwyaf tua'r arafwch ac arweinia hyn felly at ddirywiad graddol ers dechrau 2017 o amser prosesu ceisiadau ar gyfer trwyddedau gyrwyr tacsi, o 17.95 diwrnod ar gyfartaledd, i 54.6 diwrnod.

2.12 Mae'r **Gwasanaeth Eiddo** yn gyfrifol am gefnogi Adrannau'r Cyngor drwy ddarparu eiddo addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau a sicrhau fod portffolio eiddo'r Cyngor yn cael ei reoli'n effeithlon ac effeithiol.

2.13 Gwelwn fod data mesur perfformiad ar yr **Amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw (Eiddo1)** wedi gwella o 9.5 i 8.1 diwrnod. Mabwysiadodd y Gwasanaeth system TG newydd yn ddiweddar er mwyn trefnu gwaith, sydd wedi bod yn llwyddiannus. Gwelir hefyd newid polisi o fewnoli crefftwyr a lleihau dibyniaeth ar gontractwyr allanol yn dwyn ffrwyth gyda'r gwasanaeth cyflymach. Ar y llaw arall adroddodd y Gwasanaeth fod perfformiad mesur **Canran bodlonrwydd cwsmeriaid yr uned cynnal a chadw (Eiddo2)** wedi gostwng o 90.1 i 89 yn y cyfnod diwethaf. Nododd y Gwasanaeth fod gwella'r amser i ymateb i alwadau wedi dod ar draul gofal cwsmer, felly 'rydw i wedi gofyn iddynt geisio taro'r cydbwysedd yn well rhwng gwasanaeth cyflym a gofal cwsmer.

2.14 Mae'r perfformiad ar fesurydd **Canran Bodlonrwydd Cwsmeriaid Uned Difa Pla (Eiddo5),** wedi bod yn galonogol iawn ac mae'n braf gweld y gwasanaeth yn ennill ei blwyf ac yn dod yn gynaliadwy ar sail fasnachol. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i gynyddu ei incwm £40,000 yn uwch dros y flwyddyn a hanner diwethaf ac mae erbyn hyn yn ariannol hunangynhaliol. Mae bodlonrwydd y cwsmeriaid yn uchel iawn ac mae hynny yn cael ei adlewyrchu yn eu sylwadau, er enghraifft: *"Gwasanaeth arbennig, hapus iawn fod y swyddog wedi rhoi galwad i wneud yn siŵr fod popeth yn iawn erbyn hyn"*.

2.15 Bu i'r Gwasanaeth Eiddo ddechrau gwneud gwaith mewnosod offer teleofal ym mis Ionawr. Bu iddynt ofalu eu bod wedi dylunio prosesau yn ofalus cyn dechrau gwneud y gwaith, a gwelir fo hynny wedi dwyn ffrwyth yn syth. O dan y drefn flaenorol 'roedd galwad yn cymryd oddeutu 53 diwrnod i'w cwblhau. O dan y drefn newydd mae'r galwadau yn cymryd 4.9 diwrnod ar gyfartaledd, fel adroddir ym mesur **Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith Teleofal (Eiddo9)**

2.16 Mae'r **Gwasanaeth Trafnidiaeth Integredig** yn ei gyfanrwydd yn hwyluso gallu pobl i deithio o un lle i'r llall ar draws rhwydwaith sy'n ddiogel gan hefyd godi eu hymwybyddiaeth a'u haddysgu am ddiogelwch.

2.17 Mesurau pwysig ar gyfer y Gwasanaeth yw'r **Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus dan gontract i'r Cyngor (Cludiant02) a Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus masnachol eu natur (Cludiant03).** Derbyniwyd cyfanswm o 7 cwyn am wasanaethau cludiant cyhoeddus ac mae'r cwynion yn dangos peth rhwystredigaeth gyda'r gwasanaeth. Bu i'r Gwasanaeth weithio'n galed er mwyn datrys problemau cludiant dros y gaeaf, ac mae natur y cwynion a'r ymateb iddynt yn adlewyrchu

statws y diwydiant cludiant cyhoeddus yng Ngwynedd ar hyn o bryd. 'rydw i wedi gofyn i'r Gwasanaeth barhau i weithio'n galed i drefnu'r gwasanaeth gorau posib i bobol Gwynedd.

2.18 Mae'r dasg o ganfod mesurau sy'n adlewyrchu gwaith y **Gwasanaeth Cefn Gwlad** yn parhau. Byddaf yn adrodd arno i'r dyfodol.

2.19 Mae yna 3 adolygiad Ffordd Gwynedd mewn llaw ar hyn o bryd yn y maes Cynllunio (sy'n cael ei redeg yr un pryd ag adolygiad Rheolaeth Adeiladu) Cefn Gwlad gyda Stadau a Chyfleusterau i gychwyn yn yr Hydref. Byddaf yn adrodd ar ganlyniadau ddaw i'r amlwg wrth i'r adolygiadau fynd yn eu blaen.

4 **SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

4.1 **Gwireddu Cynlluniau Arbedion Cyfredol**

Mae holl gynlluniau arbedion yr Adran Amgylchedd hyd at ddiwedd y flwyddyn 2018/19 wedi eu gwireddu, ac mae'r Adran yn parhau i arwain ar rai cynlluniau corfforaethol Carbon a Salix.

---

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb


**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Cadarnhaf fod y sylwadau yn rhan 4.1 o'r adroddiad yn adlewyrchiad cywir o sefyllfa'r o ran gwireddu'r arbedion sy'n gyfrifoldeb yr Adran Amgylchedd.
Mae'r Gwasanaeth Eiddo yn arwain ar rai cynlluniau cyfalaf mawr sy'n derbyn sylw mewn adroddiadau perfformiad yr adrannau sy'n comisiynu, a bydd cyfle i ni sôn am rai cynlluniau eraill yn yr adroddiad perfformiad dilyno ar yr Adran Amgylchedd.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad





Nifer o Gwsmeriaid Bodlon

19

Cyfanswm Nifer o Gwsmeriaid a Dargedwyd


22






**Sylwadau**


Yr holiadur yn seiliedig ar sampl o gwsmeriaid sydd wedi derbyn penderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y cyfnod. Mae'r canlyniadau yn dangos mai'r rhesymau dros anfodlonrwydd canran fychan o'r cwsmeriaid yw anfodlonrwydd gyda'r penderfyniad, dim trafodaeth cyn gwrthod cais a threfniadau cysylltu. Mae'r sylwadau o fodlonrwydd yn cynnwys sylwadau cadarnhaol iawn am y gwasanaeth a roddir gan swyddogion (er gwaethaf cais wedi ei wrthod mewn rhai achosion). Er hynny rhaid nodi fod nifer o'r cwsmeriaid bodlon wedi ychwanegu sylwadau yn ymwneud a'r broses o gael gafael ar swyddog cynllunio / threfniadau cysylltu a diffyg gwybodaeth am drefniadau a gwerth defnyddio y drefnu cael cyngor cyn cyflwyno cais.






**Sylwadau**


Mae’r nifer o ddyddiau mae ceisiadau ar gyfartaledd wedi cymryd i’w penderfynu ers Ebrill 2017 wedi bod yn eithaf cyson o gwmpas y 60 diwrnod. Mae’r perfformiad dros y 3 mis olaf wedi cael ei ddylanwadu gan ychydig geisiadau sydd wedi bod yn y system ers cyfnod hir - oherwydd yr angen i gyflwyno i Bwyllgor a gohiriadau gan y Pwyllgor. Yn ogystal mae’r swyddogion yn ddiweddar wedi bod yn ymdrechu i gael gwared ar hen geisiadau fel mae amser a llwyth gwaith yn caniatáu ac fe adlewyrchir hyn yma (e.e. penderfynwyd dau gais sydd wedi bod yn y system ers 2014). Mae’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio bellach wedi ei ddiwygio ac mae gobaith y bydd hyn yn gweld lleihad yn llwyth gwaith y Pwyllgor dros y misoedd nesaf ac yn cyflymu penderfyniadau.






**Sylwadau**

Mae’r canran o geisiadau sydd yn cael eu caniatáu yn eithaf weddol gyson ac er fod wedi disgyn yn y misoedd diwethaf mae yn parhau i fod yn dystiolaeth bendant o gysondeb a gwasanaeth cynllunio cadarnhaol. Noder y gostyngiad sydd yn dilyn y cyfnod o fabwysiadu’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd diwedd Gorffennaf 2017 sydd wedi golygu fod rhai agweddau polisi wedi newid yn sylweddol a’i bod yn debygol nad oedd rhai ymgeiswyr / asiantwyr yn ymwybodol o’r oblygiadau e.e. datblygiad oedd yn cwrdd ag anghenion y Cynllun Datblygu Unedol yn flaenorol ond yn groes i bolisïau’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Er y cyfnod yma o newid, rhagwelir y bydd yn sefydlogi/codi yn y dyfodol. Bydd annog defnydd o’r gwasanaeth cyn-cyflwyno cais hefyd o gymorth i sicrhau nifer uchel o geisiadau yn cael eu cymeradwyo.






**Sylwadau**

Y canran yn amrywio yn seiliedig ar nifer yr achosion o fewn y cyfnodau penodol. Mae nifer o achosion cynhennus yn golygu mai rhain sydd wedi cael y prif ffocws gan swyddogion ac fod materion eraill wedi bod yn fwy araf yn cael eu datrys. Yn ogystal mae trefn newydd o gofrestru cwynion yn cael ei dreialu ers mis Mehefin er mwyn galluogi swyddogion i flaenoriaethu yr achosion sydd angen sylw yn well.

| **Y mesurydd polisi ers Awst 2017:** |
|---|
| **C5 - Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cynnwys mabwysiadu 4 CCA erbyn Chwarter 3 o 2017-18 (Dyma nodwyd yn y fframwaith fonitro i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd)** |


## Sylwadau - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn)

Cafodd y Cynllun i fabwysiadu gan y ddau Gyngor diwedd Gorffennaf 2017 ac felly dyma'r Cynllun Datblygu statudol ar gyfer Gwynedd (ddim yn cynnwys ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), fydd y sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

## Sylwadau – Canllawiau Cynllunio Atodol


Mae'r CCA yn rhoi cig ar asgwrn polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn rhoi arweiniad ar weithrediad cyson y polisïau i swyddogion ac i ddarpar ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio.

Nodwyd mewn adroddiadau monitro perfformiad blaenorol cafodd yr amserlen a nodir uchod ei gytuno pan oedd y Gwasanaeth yn disgwyl mabwysiadu'r Cynllun yn gynharach yn ystod 2017. Fe lithrodd yr amserlen yn wreiddiol oherwydd ni chafodd y Cynllun ei fabwysiadu tan ddechrau Chwarter 2 (2017-18) ac felly nid oedd yn ymarferol i roi adnoddau o'r neilltu i ddechrau'r gwaith. Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun, gwelwyd cynnydd yn y galw am arweiniad polisi cynllunio gan yr Uned oddi wrth swyddogion cynllunio yn gysylltiedig â chymhwyso rhai o'r polisïau newydd a bu swyddogion yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd adref yn sâl am gyfnodau gymharol hir. Gyda'i gilydd nid oedd adnoddau digonol nac amser rhesymol i allu gwneud cynnydd arwyddocaol i baratoi'r gyfres gyntaf o CCA ac mae'n debyg mai'r risg sydd yn gysylltiedig a hyn yw y bydd cyfnod hirach lle nad oes arweiniad manwl ar rai o bolisïau cynllunio'r CDLl. Cafodd trefniant cydweithio rhwng yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r 2 Wasanaeth Cynllunio ei gytuno ym mis Mai 2018 er mwyn sicrhau bod yr Uned yn gallu rhoi ffocws ar roi arweiniad ar geisiadau sy'n codi materion polisi o sylwedd a rhoi ffocws i waith paratoi'r CCA. Cafodd 3 CCA ar ffurf drafft ymgynghorol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Ebrill 2018 i dderbyn cefnogaeth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus amdanynt yn ystod mis Mai – Gorffennaf 2018. Cafodd 2 CCA eu cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus (sydd ar y gweill tan 5 Gorffennaf 2018). Penderfynwyd i wneud gwaith ychwanegol ar y 3ydd CCA. Anelir i gyflwyno 5 CCA drafft i gyfarfod y Panel Cynllun Datblygu Lleol yn ystod Chwarter 2 cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arnynt hwythau yn ystod Chwarter 3. Mae'n debyg mai'r risg sydd yn gysylltiedig a'r llithriad yw bod y Cyngor yn parhau am gyfnod hirach heb arweiniad mwy manwl a roddir yn CCA, ar weithrediad polisïau perthnasol y Cynllun.




**Sylwadau**


Mae'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn golygu fod yr ACLl yn darparu lefel uwch o dai fforddiadwy na'r targed uchaf o fewn y CDLl sydd yn 30% (heblaw am eithriadau). Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm blaenorol a chadarnhaol ar gyfer nifer o dai fforddiadwy sy'n cael eu caniatau.






**Sylwadau**

Gweler sylwadau siart blaenorol C6





Nifer o Gwsmeriaid Bodlon

26

Cyfanswm Nifer o Gwsmeriaid a Dargedwyd

26





**Sylwadau**

Yn sgil gweithrediad y Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR) mae Gwasanaeth gwarchod y Cyhoedd wedi mabwysiadu trefn newydd ar gyfer ymdrin ag arolygon cwsmeriaid .

Ar y pwynt cyswllt cyntaf roedd cwsmeriaid yn cael eu holi os ydynt yn fodlon cael eu cynnwys mewn arolwg cwsmer ai peidio.

Yn y cyfnod dan sylw cafwyd peth anhawster gyda gweithrediad y drefn oedd yn yn cynnwys cyfran o gwsmeriaid oedd yn gwrthod cael eu holi.
Yn sgil hyn dim ond canlyniadau ar gyfer 3 uned oddi fewn y gwasanaeth sydd ar gael.




Nifer o sefydliadau bwyd wedi cael arolygiad


**5**

Nifer o sefydliadau lle mae'r arolygiad yn Hwyr

**0**

Nifer o sefydliadau angen arolygiad

**46**







## Sylwadau

Mae'r mesurydd yma wedi ei addasu i adrodd ar berfformiad cynnal  arolygiadau hylendid bwyd, safonau bwyd ac iechyd anifeiliaid eiddo categori risg A yn unig ( y categori risg uchaf).

Fe fu i bob busnes categori risg A derbyn arolygiad amserol yn ystod y cyfnod.





Nifer o fusnesau wedi cael arolygiad

(Blank)

Cyfanswm Nifer o fusnesau angen arolygiad


31




## Sylwadau

Mae anhawsterau cofnodi wedi bod, ond mae’r ffigyrau wedi cael eu diweddaru o ran y 3 archwiliad sydd yn ymddangos i fod yn hwyr a sydd erbyn hyn wedi ei cyflawni. Mae’r  rhaglen archwilio yn cychwyn ar y 1af o Orffennaf, a 31 o archwiliadau wedi eu rhaglennu dros y 3 chwarter.

G4 Canran y sefydliadau bwyd anifeiliaid sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rh...




Nifer o sefydliadau wedi cael arolygiad

**26**


Nifer o sefydliadau lle mae'r arolygiad yn hwyr

**10**

Cyfanswm nifer o sefydliadau angen arolygiad

**102**

Nifer o sefydliadau bwyd anifeiliaid sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen





## Sylwadau

138 o ymweliadau ar y rhaglen gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd flwyddyn yma a'r rhestr derfynol heb ei dderbyn tan ganol y chwarter. Trefn unigryw gan yr ASB o ran gorfodaeth 'feed' - ar gychwyn bob blwyddyn ariannol mae'r ASB yn gofyn i bob rhanbarth adrodd ar y niferoedd o eiddo sy'n 'due' ymweliad 'feed' ar eu bas data (Prif Swyddog o Wrecsam sy'n arwain ar ran rhanbarth Gogledd Cymru). Y Prif Swyddog wedyn yn dyrannu'r ymweliadau sy'n 'due' rhwng y 6 Awdurdod yn seiliedig ar risg a math o eiddo e.e. Gwneuthurwyr A01, Mixer R10, Cynhyrchwyr Bwydydd Anifeiliaid Anwes R6, Ffermydd (livestock) R13 ayb gyda'r awdurdod perthnasol yn cael taliad penodedig am bob archwiliad (yn ddibynnol ar faint o arian oedd gan yr ASB ar gyfer cyflawni gorfodaeth 'feed' yng Nghymru).

Yn ôl yr uchod mae 10 arolygiad yn 'hwyr' ond nid ydynt yn hwyr yn ôl y rhaglen ASB – y'rhaglen' yn ôl y siart wedi ei rannu yn hafal fesul mis. Oherwydd adnoddau, mae'r nifer o archwiliadau sy'n ddisgwyliedig fel rhan o'r cynllun ASB yn dipyn is na'r ffigwr cyflawn o eiddo sy'n 'due' archwiliad yng Ngwynedd gan fod oddeutu 2000 o ffermydd yng Ngwynedd. Yr archwiliadau yn cael eu blaenoriaethu o ran y risg (Risg Sgôr 1 = bob blwyddyn, Risg Sgôr 2 =bob 2 flynedd ayb) a'r math o eiddo (R10, R6 ayb) yn ogystal ag unrhyw wybodaeth (intel) arall a dderbyniwyd.
Y maes 'feed' yn dymhorol h.y. mwyafrif o archwiliadau dros y gaeaf gan nad oes posib ymweld â rai yn ystod misoedd yr haf. Trefniadau mewn lle i gwblhau'r ymweliadau a ddyrennir gan yr ASB cyn diwedd y flwyddyn.

G5 Canran o Droseddau a gafodd eu datrys drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd





Nifer wedi eu datrys

75

Nifer wedi eu darganfod

121

Data Fesul Uned







**Sylwadau**


O ran Safonau Masnach cwpl o 'droseddau' yn ymwneud ac un busnes penodol yn agored ar y sustem ers peth amser - disgwyl canlyniad achos Rent Smart Wales sydd ar ddigwydd. 2 drosedd arall angen eu dilyn fyny gan Swyddogion i sicrhau eu bod wedi dilyn y cyngor a roddir. O ran rhai achosion a ddarganfuwyd yn ystod ymweliadau Iechyd Anifeiliaid, swyddogion angen ail ymweld â'r busnes sawl gwaith cyn sicrhau cydymffurfiad ond yn gyffredinol, mae unrhyw achosion sydd dal yn agored yn cynnwys achosion sydd wedi eu derbyn yn ystod y cyfnod, achosion mwy cymhleth sy'n cynnwys hel ac asesu tystiolaeth ac wrth gwrs achosion sydd yn diweddu fyny yn y llys.

O'r 13 torcyfraith sylweddol a nodir sydd dal yn agored gan yr Uned Lles (Food safety Team a Health and Safety Team) mae 5 yn dal i dderbyn sylw swyddogion. Mae 8 wedi eu datrys ond fo'r cofnodion heb eu diweddaru. Bydd y cofnodion hyn yn cael ei diweddaru mor fuan ag sy'n bosib.
O ran trwyddedu – mae diffyg cofnodi cwynion fel materion sydd yn droseddau angen eu datrys ac felly nid yw'r ffigyrau yn adlewyrchu'r sefyllfa yn gywir.




## Sylwadau


Mae nifer y sefydliadau bwyd sydd yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol neu uwch yn parhau i fod yn uchel gyda dim ond 1.1% yn methu, sef 24 busnes.




**Sylwadau**

Gweler isod.

**G7 Cyfartaledd y dyddiau a gymerir i benderfynu cais trwydded tacsis**





## Sylwadau

Yn dilyn adolygiad Ffordd Gwynedd fe osodwyd mesuryddion newydd ar gyfer trwyddedu. Mae'r mesuryddion newydd ac yn benodol y mesur uchod yn canolbwyntio ar brofiad y cwsmer o'r cyswllt cyntaf. Felly, mae cyfartaledd y dyddiau a gymerir i benderfynu ceisiadau tacsi yn cael eu cyfri o'r achlysur cyntaf y daw cwsmer atom i wneud cais. Nid yw cais yn gallu cael ei brosesu a'i benderfynu tan mae yn gyflawn  O ran ceisiadau am drwyddedau gyrrwyr,  dau ffactor sydd yn effeithio yn sylweddol ar yr amser - sef yr amser mae'r Gwasanaeth DBS cenedlaethol yn ei gymryd i brosesu tystysgrif DBS a'r amser mae'n cymryd i drefnu Is Bwyllgor Trwyddedu i gael gwrandawiad ar y cais (gall hyn yn ei hun ychwanegu 3 wythnos)

Ers yr adroddiad perfformiad diwethaf mae'r amser a gymerir ar gyfartaledd wedi cynyddu i 54.6. Roedd un cais wedi cymryd 96 o ddyddiau - ac mae hyn yn amlwg yn mynd i effeithio ar y cyfartaledd. Roedd oedi sylweddol wedi bod yn y cais penodol hwnnw oherwydd bod y Tystysgrif DBS wedi cymeryd 14 wythnos i ddod yn ol. Mae hyn yn broblem cyffredin gyda thystysgrifau DBS, yn enwedig os yw'r ymgeisydd wedi bod yn byw mewn sawl cyfeiriad,  neu gyda llawer o droseddau ar  y gofrestr. Unwaith mae cais yn gyflawn, dengys ein data nad oes oediad o gwbl yn prosesu a phenderfynu trwyddedau.

Mae ymholiadau wedi eu gwneud ers y cyfarfod diwethaf gyda'r Uned Bwyllgorau parthed rhesymoli trefniadau cynnal Is Bwyllgor – trafodaethau yn parhau, ac mae Polisi Tacsi newydd yn y broses o gael ei ddrafftio gall fod yn gyfle i gwtogi ar y nifer o geisiadau sydd angen eu hadrodd i'r Is Bwyllgor.




Nifer o sefydliadau bwyd wedi cael arolygiad


212

Nifer o sefydliadau lle mae'r arolygiad yn Hwyr

31

Nifer o sefydliadau angen arolygiad

824





**Sylwadau**

Mae'r graff yn arddangos yr holl arolygiadau hylendid bwyd oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer y cyfnod (243) a'r nifer a gafodd eu cwblhau (212). Gweler fod peth tanberfformiad yma. Fe fu ymdrech sylweddol ddechrau'r cyfnod i ddiweddaru cofnodion gwaith y flwyddyn flaenorol. Fe gafodd hyn effaith ar yr amser oedd ar gael i gynnal arolygiadau .

Yn ogystal, mae diffyg adnodd staff i gwblhau arolygiadau yn parhau. Mae swyddog gwarchod y cyhoedd (dros dro) wedi ei phenodi ac yn debygol o ddechrau gweithio diwedd mis Gorffennaf. Unigolyn sydd newydd raddio sydd wedi bod yn llwyddiannus, bydd angen cyfnod sylweddol i'w grymuso ymhellach cyn y medr gyflawni arolygon swyddogol.

Mae 45 archwiliad hylendid oedd wedi eu rhaglennu yn ystod 2017-18 dal angen eu cwblhau (15 eiddo categori risg D a 30 categori risg E). Mae'r archwiliadau hyn wedi eu cynnwys yn rhestrau archwiliadau eleni swyddogion.




Nifer o sefydliadau bwyd wedi cael arolygiad


**107**

Nifer o sefydliadau lle mae'r arolygiad yn Hwyr

**28**

Nifer o sefydliadau angen arolygiad

**466**




## Sylwadau


Mae'r graff yn arddangos yr holl arolygiadau safonau bwyd oedd wedi ei rhaglennu ar gyfer y cyfnod (135) ar nifer gafodd eu cwblhau (107).

Eto, mae'r tanberfformiad a nodir yn rhannol oherwydd ymdrech i gofnodi gwaith y flwyddyn flaenorol ar ddechrau'r cyfnod a'r diffyg adnodd sydd ar gael i'r Uned.


Mae 192 o arolygiadau safonau bwyd a ddylid fod wedi eu cynnal erbyn 31/3/18 dal heb eu cwblhau (76 eiddo categori risg B a 116 categori risg C)


Bydd disgwyliad i'r swyddog sydd newydd ei phenodi (dros dro) i gynnal rhai o'r arolygon hyn wedi cyfnod o hyfforddiant pellach.

**EIDDO 1 -**
**Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw**





Gwelir data'r galwadau unigol ar y "cap chart". Mae'r perfformiad wedi gwella yn ddiweddar oherwydd:
1. Camgymeriadau cofnodi wedi eu cywiro wrth drosglwyddo data i'n system meddalwedd newydd. Anodd gwneud camgymeriadau cofnodi yn y system newydd.
2. System TG newydd wedi hwyluso
2. Effaith defnyddio ein plymars mewnol
3. Treialu trefniadau talu anfonebau gwahanol - rhyddhau amser staff i ganolbwyntio ar y gwaith rheng faen.


EIDDO 1 - CAP CHART GALWADAU WEDI CAU 12 MIS i 30/6/18
Dyddiau ymateb
200.00
180.00
160.00
140.00
120.00
100.00
80.00
60.00
40.00
20.00
0.00
25.53
7.96
0.00
35543
35695
35987
36248
36627
36941
36923
37343
37586
37730
37958
38179
38371
38355
38787
38956
39275
38010
39793
039986
040368
040555
040837
041276
041413
041792
042109
042283
041923
042883
043202
043420
041305
043682
044497
044354
045327
Rhif trac





Rydym yn parhau i ofyn am sgor allan o 10, a'r ymateb gan amlaf yw fod cwsmeriaid yn parhau yn hapus ond maent yn fwy bodlon awgrymu lle gallwn wella ein gwasanaeth os am gael marciau llawn. Yn ddiweddar mae'r sylwadau yn cyfeirio at arafwch wrth ddelio gyda galwadau cymhleth - nid yw hyn yn syndod gan ein bod wedi drwy gyfnod o orfod drosglwyddo gwaith o un swyddog i'r llall. Hefyd, mae llai o amser wedi bod ar gael gan ein swyddogion i ganolbwyntio ar ddiweddaru cwsmeriaid yn ddiweddar wrth iddynt roi sylw i geisio delio gyda galwadau Teleofal ac absenoldeb aelod o staff. Mae'n werth edrych ar y ddau fesurydd cynnal a chadw gyda'i gilydd - mae'r cyfartaledd nifer o ddyddiau i gau "job" yn lleihau ond y bodlonrwydd cwsmer ddim cystal. Mae'r data yn dangos fod y gwaith syml yn cael ei wneud yn gynt (yn rhanol gan nad yw'r swyddogion wedi bod yn rhoi amser i dalu anfonebau) ond fod rhai galwadau mwy cymhleth wedi cymryd mwy o amser am gyfnod dros dro a hynnyw edi effeithio ar y bodlonrwydd cwsmer.




14 adeilad sydd bellach ddim mewn cyflwr da neu dderbyniol sefadeiladau bychan sydd ddim yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Gallem flaenoriaethu gwariant ar rhain er mwyn gwella'r mesurydd ond  tebyg y byddem yn blaenoriaethu ein gwariant yn anghywir mewn gwironnedd, gan fod cymaint o ofynion buddsoddi mewn adeiladau sydd mewn defnydd cyson gan y cyhoedd. Rhaid pwysleisio mai yng nghategori B mae dros 70% o'n adeiladau ac felly os na allwn barhau i fuddsoddi i'w cynnal yna mae  risg iddynt lithro nol i gategori C yn sydyn iawn.

## EIDDO 4 -
## Canran adeiladau gyda systemau diogelwch cyflawn mewn lle.





Mae'r ganran yn parhau yn eithaf sefydlog ers peth amser. Rydym yn datrys problemau yr adeiladau sydd ddim yn cydymffurfio ac mae hynny yn ei dro yn gwella'r ganran. Fodd bynnag, mae problemau newydd yn amlygu eu hunain mewn adeiladau gwahanol ac felly yn lleihau'r ganran unwaith eto!

Mae'r rhesymau am y 9% sydd angen sylw ar hyn o bryd yn cynnwys:


- Gwaith papur profion cylchol ddim wedi ei dderbyn yn ol gan gontractwyr/darganfod fod profion "out of date" - trefniadau mewn lle i wella hyn
-Newid mewn defnydd rhan o  adeilad yn golygu fod angen ail asesu risg tan neu risg legionella
-Problemau cyflwr yn creu risgiau tan iddynt gael eu trwsio
-Annodd cael mynediad i rhai manddaliadau dan denantiaeth.

Mae mesurau dros dro yn cael eu rhoi mewn lle os oes risgiau i ddefnyddwyr.





Mae'r Uned Difa Pla yn wasanaeth "masnachol" i'r cyhoedd ac felly mae'n hanfodol fod ein cwsmeriaid o'r farn eu bod yn cael gwasnaeth effeithiol am yr hyn mae'n nhw'n ei dalu. MAe'r gwasanaeth wedi cynyddu ei incwm o £40,000 dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf a bellach yn arianol hunangynhaliol. Rydym yn ceisio canolbwyntio ar gynnig gwasanaeth da yn y gobaith y bydd ein cwsmeriaid yn fodlon ein cymeradwyo i eraill sydd angen gwasanaeth o'r fath yn y dyfodol - gall hyn fod yn fwy gwerthfawr nag unrhyw ymgyrch farchnata. Mae bodlonrwydd cwsmer yn bwysig iawn felly ac mae'r ymateb yn parhau yn bositif iawn gyda sylwadau megis:

- *"Incredible service, very happy."*
-*"Gwasanaeth arbennig, hapus iawn fod y swyddog wedi rhoi galwad i wneud yn siwr fod popeth yn iawn erbyn hyn."*




Ni fu apel i'r dyfarnwr dros y 3 mis diwethaf sy'n arwydd fod ein trefniadau gorfodaeth yn deg a chyson.


## EIDDO 8
## Canran bodlonrwydd cwsmeriaid yr Uned Stadau a Chyfleusterau





Sefydlwyd y mesurydd newydd hwn gan ein bod yn gwybod ers peth amser fod yr uned hon dan bwysau ac nad ydynt yn gallu ymdopi gyda'r llwyth gwaith sydd ganddynt, yn arbennig gan fod eu llwyth gwaith wedi cynyddu wrth i adrannau eraill geisio gwireddu eu cynlluniau arbedion. Bellach mae'r adnodd staff wedi ei gynyddu ac mae aelod allweddol wedi dychwelyd ar ol cyfnod mamolaeth o flwyddyn. Mae'r mesurydd yn dangos ein bod yn symud tua'r cyfeiriad cywir. Allan o'r 49 cwsmer a holwyd roedd 6 yn anfodlon. Dau fath o sylw sydd gan bob un ohonynt - materion yn cymryd gormod o amser i'w datrys neu ddiffyg gwybodaeth/diweddaru yn ystod achos . Nid oes yr un gwyn am ansawdd y gwaith a gwblheir na'r canlyniadau, ac mae rhai o'r rhai sy'n anfodlon hefyd yn pwysleisio hyn yn ei sylwadau. Rydym yn ffyddiog y byddwn yn parhau i weld gwelliant wrth i'r staff newydd ddatblygu ond rydym hefyd yn edrych ar y gwahanol alw ar yr Uned hon gan fod cryn dipyn o bethau heblaw gwaith stadau traddodiadol wedi eu cartrefu yma bellach.

*(Byddwn yn cyflwyno mesurydd newydd yn y maes yma erbyn yr Hydref a fydd yn yn edrych ar y ganran o adolygiadau prydlesi sy'n cael eu cwblhau'n amserol.)*


**EIDDO 9 -**
**Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith Teleofal**




Gwelir data'r galwadau unigol ar y "cap chart". Mae hwn yn fesurydd newydd sy'n edrych ar alwadau Teleofal sydd bellach yn dod drwy'r Ddesg Gymorth Eiddo yn dilyn trosglwyddo'r gwaith atom yn Ionawr. Gan ein bod wedi cael rhai misoedd i gynllunio'n prosesau gwaith cyn cychwyn ar y gwasanaeth hwn, rydym wedi gallu cydweithio'n agos gyda'n cwsmeriaid mewnol (Adran Oedolion) i sicrhau fod y drefn yn gweithio iddyn nhw a'u cleientaid allanol. Rydym yn falch felly fod yr adborth a geir yn ardderchog a bod y Gwithwyr Cymdeithasol yn gweld gwahaniaeth yn syth. O dan yr hen drefn roedd y cyfartaledd amser ar gyfer delio gyda galwadau oddeutu 53 diwrnod - mae'r drefn bellach wedi ei thrawsnewid a'r prosesau gwaith yn debyg i'r rhai cynnal a chadw.


CAP CHART GALWADAU TELEOFAL i 31/6/18
Dyddiau ymateb
Rhif trac
100.00
90.00
80.00
70.00
60.00
50.00
40.00
30.00
20.00
10.00
0.00
15.55
4.93
0.00
040039
041346
041977
042774
043468
044204
044877

## EIDDO 10 -
## Canran gostyngiad mewn allyriadau carbon o adeiladau hyd yma yn ystod y flwyddyn





Hyd yma elenni mae'r allyriadau nwy i fyny 7.% ac allyriadau trydan i lawr 2.2% . Mae'r ffaith fod y tywydd dros y gaeaf wedi bod 25% yn oerach na'r flwyddyn flaenorol wedi cael cryn effaith ar y defnydd nwy. Nid yw'r defnydd trydan yn ddibynol ar y tywydd ac mae'n galonogol gweld fod hwnnw yn llai nag am yr un cyfnod y llynnedd.Rhaid cofio mai data am ganran o'r allyriadau yn unig sydd gennym ac felly gall y sefyllfa ar gyfer yr holl ystad erbyn diwedd y flwyddyn fod yn wahanol. Rydym yn defnyddio'r mesurydd fel rhybudd cynnar os yw'r defnydd yn codi. Rydym hefyd yn gallu gweld y cynnydd ar gyfer adeiladau unigol ac yn ymateb yn gynnar i geisio rheoli'r defnydd e.e. system dwr poeth ymlaen 24 awr y dydd yn Ysgol y Moelwyn, defnydd uchel yn ystod gwaith adeiladu ar safle Ysgol y Berwyn.

| MANYLION AM Y GWASANAETH | | MANYLION MESURAU | | | | PERFFORMIAD LLYNEDD | UCHELGAIS ELENI | Cyfnod 1<br>Ebrill - Mehefin | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned** | **Haen** | **Cyfeirnod** | **Mesur** | **Uned Mesurydd** | **Amlder Adrodd** | **2017-2018** | **2017-2018** | **2018-2019** | **2018-2019** | **Sylwadau** |
| Cludiant Integredig | 1 | Cludiant01 | Canran o siwrnai cludiant cyhoeddus (bysus) sydd wedi eu monitro sydd o fewn y terfynau dibynadwyedd (amseroldeb bysus)<br>**Canran o siwrneiau cludiant** | Heb fonitro cyfnod yma | Pob 3 mis | | 95% | | | Mae'r Swyddog Monitro wedi cael ei secondio i swydd arall o fewn yr adran ac o'r herwydd does neb wedi bod yn monitro yn ystod y cyfnod dan sylw. |
| Cludiant Integredig | 1 | Cludiant02 | Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus dan gontract i'r Cyngor (nifer yn hytrach na canran) | 4 | Pob 3 mis | | 8 | | | Bws 0850 o Dudweiliog I Pwllheli yn hwyr yn cyrraedd yn aml, yn bennaf oherwydd traffig ar Ffordd yr Ala, Pwllheli. Y cwynydd yn bryderus ar gyfer y myfyrwyr sy'n gwneud arholiadau ar hyn o bryd. Bws I fod I gyrraedd 0920 ond yn aml 10 munud yn hwyr. Bws 88 o Llanberis ddim wedi troi fyny am 1245, dal heb gyrraedd am 1.00 p.m. |
| Cludiant Integredig | 1 | Cludiant03 | Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus masnachol eu natur (nifer yn hytrach na canran) | 3 | Pob 3 mis | | 19 | | | Diffyg gwasanaeth o Garmel i Gaernarfon ynghyd a chwyno fod y bws yn hwyr ar brydiau. Nifer yn cwyno yn gyffredinol am gwmni Arriva bod y bysiau ddim yn troi fyny. Bws 5C heb droi fyny yn Penrhosgarnedd. |
| Diolgelwch Ffyrdd | 1 | DFF1 | Canran o fynychwyr sydd wedi dysgu bod yn fwy diogel ar y ffyrdd o ganlyniad i'r wers/ hyfforddiant | | Pob 3 mis | | | | | Yn ystod cyfnod 1 holwyd 716 o gwsmeriaid a gymerodd rhan yn wahanol sesiynau Diogelwch y Ffyrdd - gweler crynodeb isod:<br>Q1 Beth oeddech yn feddwl o'r sesiwn = 100%<br>Q2 Beth oedd eich barn am yr hwylusydd = 100%<br>Q4 Ydych yn credu fod y cynnwys yn ogystal â'r negeseuon allweddol o fewn y sesiwn o unrhyw fudd i'r bobl ifanc = 99.30%<br><br>Pass Plus Cymru – Bydd sesiynau trafodaeth yn cael eu cynnal yn fisol tan ddiwedd Mawrth 2019, gyda rhai ychwanegol yn cael eu trefnu yn ôl y galw traws Gwynedd. Fel cam pellach i geisio arbed bywydau pobl ifanc mae'r Uned wedi penderfynu rhoi 24 o bobl ifanc ar gwrs "Rheoli Car" rhwng Ebrill a Hydref ar sail gyntaf i'r felin, gyda'r posibilrwydd o anfon mwy o ddisgyblion ar y cwrs petai'r diddordeb yn uchel a'r adborth yn bositif.<br>"Byw'n Dda, Gyrru'n Dda" - yn anffodus ni dderbyniwyd arian gan y Cynulliad eleni, ond serch hyn mae'r Uned yn mynd i anrhydeddu unrhyw gais a dderbynnir a'i gyllido o gyllid Diogelwch Ffyrdd cyffredinol os oes hyfforddwr ar gael yn yr ardal.<br><br>Seiclo - Mae'r Uned wedi penodi hyfforddwr newydd a bydd yn dechrau efo'r Uned ym mis Awst. Yn ystod cyfnod 1 hyfforddwyd 220 o ddisgyblion.<br>Symud i Fyny - Sesiwn newydd yw hwn sy'n cael ei gyflwyno i ddisgyblion Blwyddyn 6 er mwyn eu paratoi i symud i fyny i Ysgol Uwchradd. Yn dilyn hysbysu'r sesiwn mae 38 o ysgolion wedi cymryd rhan / datgan diddordeb, gyda'r hyfforddiant yn parhau i fynd ymlaen tan ddiwedd y tymor ysgol.<br>Mae'r Uned ynghyd ag Asiantaethau eraill wedi cychwyn ar y sesiynau "Dewis" sydd ar gyfer Blwyddyn 9 ag y sesiynau "Criw Craidd" ar gyfer Blwyddyn 7, gyda llawer o sesiynau wedi eu trefnu hyd at ddiwedd tymor ysgol. |


| Dyddiad | Gwasanaeth | Lleoliad | Taith Bws | Ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth? | Os na, Pam? | Beth ydych wedi gwneud am y peth? | Masnachol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 02/05/18 | Cludiant | | 35 - Coleg - Blaenau Ffestiniog i Dolgellau | Nac ydw | Mae dysgwyr sydd yn defnyddio'r gwasanaeth cyhoeddus uchod wedi adrodd i'r coleg (Coleg Meirion Dwyfor, safle Dolgellau) bod y bws wedi mynd ar dan fore heddiw ar ei thaith o Blaenau i Ddolgellau.<br>Cafwyd disgrifiad o "mwg mawr yn dod o'r injan" a "brakes ar dan".<br>Oedd rhaid i'r teithwyr, oedd yn cynnwys ein dysgwyr, aros ar ochr y ffordd yng Ngellilydan am bron i awr i ddisgwyl am fws yn ei le.<br>Buaswn yn ddiolchgar am eich ymateb i'r adroddiad, os gwelwch yn dda. | Wedi anfon yr ymateb yma gan y contractwr yn ol. "Roeddwn Hanna or swyddfa wedi galw y Ysgol ar Coleg ac oeddwn wedi holi I ebostio y cynghor iw esponio, ymdderiad os mi nath hi ddim,I esponio bod y bws 35 wedi torri lawr.<br><br>Be oedd wedi digwydd oedd y brakes wedi dod mlaen a cydiad oherwydd oedd y ramp anabl heb a cau ar y sensor yn iawn. Nath hogla cynas a mwg dod o hyn ond nath y gyrwr tynnu drosodd yn y safle bws yn Gellilydan a holi y myfyrwyr rhan diogelwch.<br><br>Roedd bws arall yna mewn 30 munud ir digwyddiad, mi nath hanner or dysgyblion ar y T2 oedd yn pasio." | NA |
| 04/05/18 | Cludiant | DYFFRYN NANTLLE | Dyffryn Nantlle | Nac ydw | It is with frustration that I feel the need to contact you directly because I'm sure you are a busy person.<br>My wife is at the end of her tether because the bus service which is now operating is a shambles and is regularly 30 minutes late -this being the last bus at 5:20 pm and is left wondering if a bus is going to turn up or will she be left alone in Caernarfon.<br>I have been in contact with our councillor Dilwyn Lloyd but all we get is excuses.<br>It is obvious to the residents of Dyffryn Nantlle that Gwynedd Council and the council employees dealing with this issue do not give a damn about us or otherwise a meeting would have taken place and our voices would have been heard instead of everyone seemingly hiding behind their curtains.<br>How would you like it if youre wife or daughter was left vulnerable in a bus stop because of failings by your department?<br>Pull your finger out and grow a pair and come and meet the people you serve and earn some respect | Thank you for your e-mail regarding the problems facing the residents of Dyffryn Nantlle, and your wife in particular, following the revoking of Express Motors' operating licenses by the Traffic Commissioner. The Council has been working hard to try and secure replacement services for those communities left isolated following this decision. However, while many of the replacement services have been effective, there are still some which require further improvement; including those serving Dyffryn Nantlle.<br><br>I appreciate your wife's frustration about the patchiness of the services between Caernarfon and Dyffryn Nantlle and clearly, buses should arrive at, or very near, the times shown on the timetable. However, for a number of reasons, the bus company operating this route has had difficulty keeping to its schedule. Nevertheless, Bus Users Cymru, which works in partnership with local authorities to prioritise the needs of bus passengers, has recently undertaken a review of the current situation and has recommended changes to some of the services in order to solve some of the problems the operators currently face. They have already identified your concerns about the timetable between Caernarfon an Dyffryn Nantlle and have suggested a number of alterations to prevent instances like those currently affecting your wife from happening. We are discussing these changes with the bus company at the moment and hope to have them operational very soon.<br><br>With regard to taking the views of local people into consideration, we have already received many comments and suggestions from residents regarding the replacement services as well as from Local Councillors who have been quite vocal about the current arrangements. Please be assured that the Council is not<br>ignoring the views of local people and is trying as best as possible to incorporate them in any potential improvements. | Ia |
| 08/05/18 | Cludiant | DYFFRYN OGWEN | Bysus 67 / 67L Bangor/Bethewsda | Nac ydw | Tynnaf i'ch sylw am y gwasanaeth uchod. Mae Cwmni Arriva yn gymeryd pobl sydd gorfod defnyddio eu gwasanaeth I ardal Ddyffryn Ogwen gyda dirmyg o'herwydd<br>drost nifer o fisoedd nid yw bysys yn troi fynu. Heddiw aros am fws 10:45 o Rachub i Fangor dim gwasanaeth ag felly gorfod aros hyd at 11:10.<br><br>25/04/2018 Roeddwn yn aros am gwasanaeth 18:39 Yn Llandygai gredaf eu fod yn hwyr o ychdig fynudau hefyd sylwi nid aeth trwy Tregarth ond I fynu yr A5 a troi am Rachub yn Brynbella, a ger Mynwent Coetmor fe rôdd y gyrrwr eu cardyn swyddogol ar y peiriant tocynau fel mae'nt yn gwneud a'r ddechrau "shift". Dim ond dau engraifft yw hyn o amryw o cwynion oddi wrth trigolion Dyffryn Ogwen, oes môdd rhybuddio Cwmni Arriva bod rhaid i'r gwasanaeth fod yn llawer mwy brydlon. | LLW wedi cysylltu gyda Arriva - We've received the following complaints from the Councillor for Tregarth and Mynydd Llandygai.<br><br>10/05/2018 – 1045 bus from Rachub to Bangor didn't turn up<br>25/04/2018 - 1839 bus from Llandygai was late by a few minutes but also didn't go through Tregarth but rather came along the A5 and then turned up for Rachub at Brynbella. Then at the cemetary the driver scanned his pass on the machine as if he was starting a shifft.<br><br>Can you please investigate and let me know the outcome?<br>Ymateb Arriva - The 10:45 Rachub to Bangor on the 10/05/18. Module data checked and the service ran.<br>The 18:39 Llandygai to Bethesda on the 25/04/18. Module date checked and the journey operated via Tregarth 2 min late. | IA |
| 23/05/18 | Cludiant | | Bws Rhif 8 - Tudweiliog i Bwllheli | Nac ydw | Bws 0850 o Dudweiliog I Pwllheli yn hwyr yn cyrraed yn aml, yn bennaf oherwydd traffig ar Ffordd yr Ala, Pwllheli. Y cwynydd yn bryderus ar gyfer y myfyrwyr sy'n gwneud arholiadau ar hyn o bryd. Bws I fod I gyrraedd 0920 ond yn aml 10 munud yn hwyr. | Nefyn Coaches yn mynd I gael barn cyfreithol ar hyn oll ac yn edrych I wahardd y ferch am gyfnod gan fod tystiolaeth ohoni yn camymddwyn gyda dynion eraill ar y gwasaneth - teithwyr yn cwyno am hi a'i theulu ac felly Nefyn Coaches yn colli cwsmeriaid orherwydd | NA |
| 23/05/18 | Cludiant | LLANBERIS | Bws 88 - Llanberis i Gaernarfon | Nac ydw | Bws 88 o Llanberis ddim wedi troi fyny am 1245 heddiw (23/05/18). Dal ddim wedi troi fyny erbyn 1pm.<br>Bws 88 o Lanberis am 0840 ddoe (22/05) ddim wedi troi fyny chwaith!!! | 2 gerbyd wedi torri lawr heddiw - un wedi cael 'breaks failure' a drysau yr ail gerbyd ddim yn gweithio. Ar hyn o bryd mae ganddynt 13 bws oddi ar y lôn oherwydd problemau mecanyddol, 8 dreifar I lawr a 16 off sick. Mae'r rheolwr yn gwneud beth mae'n gallu I geisio sicrhau y gwasanaeth gorau I gwsmeriaid - wedi cael cyfarfod efo'r MD I geisio cael y byssus nôl ar y lon asap. | NA |
| 26/05/18 | Cludiant | BANGOR | Bws 5B i Gaernarfon | Nac ydw | Want to complain about a bus not showing up. I was at the Bangor, Penrhos Garnedd bus stops by 21:15 today (26/5/18) to catch the 21:20 5B to Caernarfon and it never showed. | Response from Arriva - Unfortunately this service never ran due to a staffing issues.<br>Passed on information to Bus Compliance Officer, Bus Users UK as this is a commercial service | IA |
| 31/05/18 | Cludiant | | Bws 35 - Coleg Dolgellau | Nac ydw | Rwyf wedi cael galwad am 1310 gan fyfyriwr yn Coleg Dolgellau – dweud bod dreifar y service 35 am 1220 wedi dreifio heibio iddi. Ges i ddim ateb yn eich swyddfa so dywedais wrthi fynd ar y T2 yn y gobaith fysa'n gwneud connection efo'r 3B i Blaenau, fel arall bysa'n rhaid iddi gael tacsi. Nes i egluro wrthi gan ei bod mor hwyr yn cwyno bod na fawr fysa ni'n gallu neud i helpu ei sefyllfa mond bod hi'n gwneud fel yr uchod. Dw i'n siwr sa ni wedi cael gafael ar y dreifar os fysa'r alwad wedi dod ynghynt! | | NA |

| | |
|---|---|
| Nac ydw | 7 |
| Ydw | 0 |


| | | |
|---|---|---|
| Na | 4 | 70% |
| Ia | 3 | 30% |
| | 70% | |
| | 30% | |



Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus yng Ngwynedd 2018-19
Cyfnod 01/06 - 31/07/18
Nifer o gwynion am wasanaethau Arriva wedi codi'n sylweddol yn ystod y mis diwethaf. Bysus yn torri i lawr ar hap a gwasanaethau ddim yn gweithredu. Bus Users Cymru wedi bod yn monitro ac wedi cael cyfarfod gyda Arriva - mae ganddynt gynllun ar y gweill i wella eu rhaglen cynnal a chadw dros y misoedd nesaf. Yn anffodus, does dim "quick fix"!
Cyfnod 01/04 - 31/05/18
- Bysus ddim yn troi fyny (Arriva)
- Gwasanaeth i'r coleg yn rhedeg yn hwyr oherwydd traffig (Nefyn Coaches)
- Diffyg gwasanaethau bws yn Ardal Dyffryn Nantlle
- Cwyn fod bws wedi mynd ar dân - Lloyds wedi egluro fod y brêcs wedi dod mlaen a cydiad oherwydd nad oedd y ramp anabl wedi cau ar y sensor yn iawn
Nifer o gwynion
14
12
10
8
6
4
2
0
01/04 - 31/05/18
01/06 - 31/07/18
01/08 - 30/09/18
01/10 - 30/11/18
01/12 - 31/01/18
01/02 - 31/03/19
Cyfnod
Masnachol
Contract



Siart i ddangos prydlondeb bysiau
Tachwedd 2017 i Mehefin 2018
Lleiafswm
Uchafswm
Amser y Bws
Hyd at 5 munud yn hwyr
Swyddog Monitro ar secondiad i swydd arall ers Mawrth 2018 felly dim gwaith monitro wedi cymryd lle.
Cyfartaledd
Hyd at 1 munud yn fuan
Prydlondeb (munudau)
9
8
7
6
5
4
1
0
-1
-2
-3
17/11/17
24/11/17
01/12/17
08/12/17
15/12/17
22/12/17
29/12/17
05/01/18
12/01/18
19/01/18
26/01/18
02/02/18
09/02/18
16/02/18
23/02/18
02/03/18
09/03/18
16/03/18
23/03/18
30/03/18
06/04/18
13/04/18
20/04/18
27/04/18
04/05/18
11/05/18
18/05/18
25/05/18
01/06/18
Dyddiad Monitro


Siart i ddangos hyd cyfnod prosesu gorchmynion Traffig 2018
Uned Traffig: Asesu'r Cais
Gwasanaeth Cyfreithiol
Uned Traffig: Comisiynu'r Gwaith
Contractwr
Wedi Cwblhau
Oedi oherwydd cerbydau wedi parcio ar y ffordd
UCL, 441
Cyfartaledd, 303
500
450
400
350
300
250
200
150
100
50
0
11 Safle
22 Safle
23 Safle
23 Safle
15 Safle
7 Safle
1 Safle
1 Safle
2 Safle
1 Safle
9 Safle
CG49: Parcio Arfon 13/02/2017 - 24/01/2018
CG48: Parcio Arfon 27/02/2017 - 22/02/2018
CG52: Parcio Meirionnydd 28/02/2017
CG54: Parcio Arfon 11/09/2017
CG55: Parcio Arfon 05/10/2017
CG53: Parcio Dwyfor 13/12/2017 - 05/07/2018
CG59: Parcio Dwyfor 09/01/2018
CG58: Parcio Dwyfor 23/01/2018
CG56: Cyflymder Arfon & Dwyfor 05/02/2018
CG57: Cyflymder Arfon 01/03/2018
CG60: Parcio Meirionnydd 13/03/2018
GORCHYMYN

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11eg o Fedi 2018 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Griffith |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Timau Rheoli oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgorau Craffu perthnasol.

1.3. Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mesurau yr wyf yn gyfrifol amdanynt.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2.2 Argymhellaf fod y Cabinet yn awdurdodi gohirio gweithrediad y cynllun arbediad **Canolfannau Ailgylchu (PB5)** yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol gan ymdrin â'r bwlch sy'n cael ei greu wrth ystyried arbedion 2019/20 ymlaen, a hefyd yn cymeradwyo gweddill y cynigion a nodir yn rhan 6.3 isod i gyfarch y bylchau mewn cynlluniau arbedion eraill.

## 3. PERFFORMIAD

<u>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</u>

3.1 Mae cynnal amgylchedd lleol o safon uchel ac edrychiad strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd. Gwaith yr uned **Gwasanaethau Stryd** yw cadw ein strydoedd yn lan a thaclus a cheir nifer o fesurau sy'n edrych ar ba mor dda y maent yn gwneud hyn. Mae perfformiad y **Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd (Mesur STS/005a)** hyd yma eleni yn 74.5% gan ddangos gwelliant ar berfformiad diwedd blwyddyn 2017/18 (71.95%.)

3.2 Mae'r **Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu** yn gyfrifol am ymdrin â gwastraff mewn modd cynaliadwy. Rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r mesurau ar gyfer y gwasanaeth hwn ond byddwn yn tynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol.

3.3 Nodir bod y lefelau **Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio (Mesur WMT/009)** wedi gwella o 60.01% yn 2017/18 i 64.33% yn y cyfnod o Ebrill i Fehefin 2018. Mae'r perfformiad presennol yn cynrychioli cynnydd sylweddol a'i gymharu â 54.3% yn 2013/14, 55.25% yn 2014/15, 58.70% yn 2015/16 a 62.34% yn 2016/17.

3.4 Mae'r **Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol (Mesur PB51)** yn sefydlog yn y cyfraddau ailgylchu/compostio gan fusnesau, gyda 44.1% ar gyfer 2018/19 hyd yma o'i gymharu â 44.34% ar gyfer y flwyddyn 2017/18.

3.5 Yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd wrth gwrs yw bod eu gwastraff yn cael ei gasglu. Gallaf adrodd bod **1.21 miliwn** o gasgliadau gwastraff wedi cael eu gwneud yn y cyfnod o Ebrill i Fehefin 2018 gyda **3,067** o gwynion wedi eu derbyn nad oeddem wedi casglu (neu 0.34%). Dylid cydnabod bod hwn yn ffigwr isel iawn o'i gymharu â'r nifer o gasgliadau yn ystod y cyfnod hwn. Rwyf wedi gofyn i'r Adran cyflwyno'r wybodaeth fel graff dros amser er mwyn dangos tueddiadau ac fel ein bod yn gallu adnabod y rhesymau dros unrhyw fethiant a rhoi sylw i'r agweddau y gallwn ddylanwadu arnynt. Ymddengys fod y ganran yn uwch ym Meirionnydd ac Arfon nad yw yn Nwyfor.

3.6 Mae perfformiad y mesur **Canran y gwastraff trefol a anfonir i dirlenwi (WMT 004)** yn is eleni yn y cyfnod o Ebrill i Fehefin, sef 17.3% o'i gymharu â 24.33% ar gyfer 2017/18. Gellir priodoli'r gwelliant hwn i'r ffaith fod mwy o wastraff bwrdeistrefol wedi ei drin drwy drefn llosgi ac o ganlyniad ddim wedi'i anfon i dirlenwi.

3.7 Ni fydd gwybodaeth am y cyflwr ffyrdd ar gael i ni tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn a byddaf yn adrodd ar hynny pan gawn y canlyniadau.

## 4. DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU

4.1 Ar 22 Medi, 2016 bu i'r Pwyllgor Craffu dderbyn argymhellion **Adroddiad Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Stryd**. Un o'r argymhellion hyn oedd y 'dylai'r Cyngor edrych ar allanoli elfennau o'i waith gorfodi i ategu gwaith y tîm mewnol'. Byddai'r gwaith hynny yn canolbwyntio ar orfodaeth a dirwyo sydyn (FPNs). Yn unol â'r argymhelliad hwn, comisiynwyd cwmni allanol i gynnal treial gorfodaeth stryd am flwyddyn.

4.1.1 Bu i'r treial gychwyn mis Chwefror eleni ond wedi ychydig ddiwrnodau daeth y cwmni a'r treial i ben.

4.1.2 Byddwn nawr yn edrych i ddechrau peilot arall gan ddefnyddio adnoddau mewnol sydd ar gael er mwyn targedu ardaloedd lle mae problemau parhaus. Byddaf yn eich diweddaru ar hyn unwaith y bydd y cynllun peilot hwn ar waith.

4.2 Nodir yn yr adroddiad diwethaf bod rhaglen sylweddol ar waith ar gyfer **newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED**. Yn ystod 2015/16 newidiwyd 1,709 o unedau golau stryd ac arwyddion i LED gyda 3,418 ychwanegol yn cael ei newid yn 2016/17, a 3,472 yn 2017/18. Yn ystod 2018/19 bydd 1,680 uned i'w newid (738 wedi ei newid hyd yn hyn) a fydd yn golygu bod cyfanswm o 10,279 o unedau wedi newid yn ystod y rhaglen gychwynnol hon. Yn sgil y newidiadau yma rhagwelir y byddwn yn arbed £260,000 y flwyddyn yn ogystal â gostyngiad mewn allyriadau carbon (414 Co2).

## 5. <u>Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd</u>

5.1 Ar gyfer yr Adran yma mae un prif fesur wedi ei adnabod sef **Elw yn erbyn targed**. Nodir fod y sefyllfa yn gymharol gadarnhaol ar hyn o bryd gyda'r tafluniad y sefyllfa NET ddiweddaraf ar gyfer Ebrill i Fehefin 2018/19 yn dangos diffyg elw o **£22,775**. Mae hyn yn cymharu gyda ddiffyg elw o £85,107 ar ddiwedd Chwarter 1 2017/18. Wrth edrych yn ôl ar batrymau hanesyddol, oherwydd natur gwaith cleient, mae'r ffigwr hwn yn aml yn is yn y Chwarter cyntaf, felly ar hyn o bryd dydw i ddim yn pryderu am hyn.

5.2 Mae'r **Uned Rheolaeth Adeiladu** yn gyfrifol am sicrhau bod gwaith adeiladu yn cwrdd â'r safonau adeiladu**.** Mae'r Uned wedi datblygu cyfres o fesurau sy'n mesur eu perfformiad ac wedi adrodd arnynt i'r cyfarfod herio perfformiad diwethaf. Dengys y wybodaeth ar gyfer **bodlonrwydd y cwsmer** (Mesur BC 1) ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Mehefin 2018 yn sgôr bodlonrwydd o 9.7 allan o 10, sy'n gyson hefo perfformiad 2017/18 o 9.6 allan o 10. Mae gwaith yn mynd ymlaen i sefydlu'r rheswm am unrhyw anfodlonrwydd.

5.3 Nodir bod y canran o **geisiadau cynlluniau llawn a gymeradwywyd** neu gymeradwyo'n amodol yn 92.5% ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Mehefin 2018. Mae perfformiad y mesur hwn wedi parhau yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, gyda pherfformiad 2016/17 yn 92.5% a pherfformiad 2017/18 yn 95.7%. Rwyf wedi gofyn i'r Rheolwr edrych ymhellach am y rhesymau nad oedd pawb yn gwbl fodlon a pham nad oedd ceisiadau wedi eu cymeradwyo er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa.

6. **SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION**

6.1 **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

**Cynlluniau 2013/14 – 2016/17**

6.2 Mae un cynllun hanesyddol gwerth cyfanswm £40,000 heb ei wireddu **(PB19 Rhesymoli Banciau Ailgylchu. B**ellach, mae modd o wireddu wedi ei adnabod a rhagwelir cynnydd dros y misoedd nesaf.

**Cynlluniau 2017/18 – 2018/19**

6.3 Er bod cynnydd derbyniol iawn wedi ei wneud tuag at wireddu y rhan fwyaf o gynlluniau 2017/18, mae ychydig o bryder yn parhau parthed goblygiadau gweithredu pedwar ohonynt:

6.3.1 Gyda chynllun **Canolfannau Ailgylchu (PB5),** 'roedd ymarferiad Her Gwynedd wedi dod i gasgliad y dylem gau un ganolfan er mwyn cyflawni arbediad o £96,000. Fodd bynnag, mae'r adnoddau yma yn boblogaidd ymysg y cyhoedd ac mae'r Adran yn ystyried fod ganddynt gynigion fyddai'n llai cynhennus na gwireddu'r cynllun yma. Mae'r gwaith paratoi ar gyfer arbedion 2019/20 ymlaen hefyd wedi amlygu fod yna gynlluniau posibl nawr yn dod i'r amlwg gan adrannau eraill hefyd fyddai wedi bod yn llai heriol pe byddem wedi medru eu cynnwys yn yr adolygiad Her Gwynedd. **Argymhellir felly bod y Cabinet yn awdurdodi gohirio gweithrediad y cynllun arbediad yma gan ymdrin â'r bwlch sy'n cael ei greu wrth ystyried arbedion 2019/20 ymlaen.**

6.3.2 Gyda chynllun **Rhesymoli Cylchdeithiau Glanhau Strydoedd (PB10),** mae dwy ran o dair o'r arbedion yn y cynllun hwn wedi eu gwireddu ond mae gwireddu'r gweddill fel ag yr oedd wedi ei ragweld yn her. Mae'r Cynllun Gwastraff gardd yn costio llai i'w weithredu ac yn cynhyrchu ychydig mwy o incwm na ragwelwyd ac rwyf yn awgrymu felly ein bod yn defnyddio £50,000 o'r ffynonellau yma i osgoi mwy o doriadau i lanhau strydoedd.

6.3.3 Gyda chynllun **Lleihau Amlder Torri a Threfn Chasglu Gwair Trefol (PB28)** mae trigolion Gwynedd yn amlwg yn gweld effaith yr hyn a wnaed eisoes ac mae yna bryder y byddai goblygiadau parhau i dorri'r gyllideb i gwrdd â'r holl swm angenrheidiol yn debygol o fod yn fwy na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol pan wnaed y penderfyniad i dorri. Cyflwynwyd adroddiad ar y sefyllfa i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 19 Ebrill 2018 er ceisio datrysiad, ac awgrymwyd ganddynt i'r Adran ymchwilio bellach i syniadau amgen er gwireddu'r arbediad. Mae yna gynlluniau i leihau plannu blodau (£5,000); lleihau goramser (£20,000) ac arwisgo ffyrdd gyda deunydd rhatach (£20,000) yn golygu fod modd cwrdd â'r bwlch ac rwyf yn awgrymu ein bod yn gwneud hynny.

6.3.4 Gyda chynllun **Cau 50 allan o 73 o Doiledau Cyhoeddus y Sir (Toriadau 51**), mae'r cynllun Partneriaethau gyda Chynghorau Cymuned a Thref wedi galluogi i'r rhan helaethaf o'r toiledau oedd o dan fygythiad barhau yn agored, yn llawn neu'n dymhorol. Erbyn hyn, mae'r cynllun bron a chael ei wireddu'n llawn ond rwyf yn awgrymu ein bod yn defnyddio £6,000 o arbedion ail-strwythuro i gau'r bwlch.

6.3.5 Yn ogystal a'r cynlluniau y mae'r Adran ei hun yn gyfrifol am eu cyflawni maent hefyd yn gyfrifol am arwain cynllun corfforaethol i adolygu trefniadau fflyd yn dilyn argymhellion a gafwyd gan arbenigwyr oedd wedi adnabod lle gellid gwneud arbedion yng nghyfundrefnau fflyd y Cyngor. Y tybiaeth o fewn cyllideb y Cyngor oedd y byddai modd gwireddu £85,000 o arbedion eleni a £48,000 pellach y flwyddyn nesaf. Yn anffodus mae'r gwaith paratoi yn cymryd dipyn yn hirach na ddisgwyliwyd gan ein bod wedi bod yn ymchwilio i wahanol ffyrdd o gyflawni'r arbediad a'r angen hefyd i gymryd goblygiadau trethiant i ystyriaeth.

Tra rydym yn hyderus y bydd modd cyflawni'r arbediad maes o law, mae'n annhebygol y bydd yr £85,000 yn cael ei gyflawni eleni ac yn amlwg mae yna oblygiadau i gyllideb y Cyngor am eleni yn deillio o hynny fydd yn amlygu eu hunain yn yr adroddiadau Trosolwg Arbedion ac Adolygiad Cyllideb fydd yn dod i gyfarfod y Cabinet ar 16 Hydref.

**Cynlluniau 2018/19 ymlaen**

6.4 Ni ragwelir problem gwireddu'r un cynllun sy'n barhad o gynllun sydd wedi ei rannol wireddu yn 2016/17 a 2017/18.

7. **Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd**

7.1 Mae'r Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi gwireddu'r oll gynlluniau effeithlonrwydd a thoriadau ar gyfer 2016/17 a 2017/18.

8. **CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

8.1 Dim i'w nodi.

**9 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

9.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Cadarnhaf fod y sylwadau yn rhan 6 a 7 o'r adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ddiweddaraf gwireddu'r arbedion sy'n gyfrifoldeb yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd.

Fel dywedai'r adroddiad ym mharagraff 6.3.5, bydd yr adolygiad cyllideb nesaf yn delio gyda'r oblygiadau o oedi cyn cyflawni cynllun arbediad corfforaethol sydd dan arweiniad yr Adran Priffyrdd.

Credaf bydd cyllideb yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol medru ddygymod yn 2018/19 pe bai'r Cabinet yn penderfynu gohirio gweithredu'r cynllun arbediad Canolfannau Ailgylchu (PB5), fel argymhellir yn rhan 2 o'r adroddiad.

9.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

9.2.1 Ddim yn fater lleol.

9.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

9.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad

**Monitro Perfformiad Chwarter 1 2018-19**

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

| Gwasanaeth | Pennawd | Perfformiad Blynyddol 2013-14 | Perfformiad Blynyddol 2014-15 | Perfformiad Blynyddol 2015-16 | Perfformiad Blynyddol 2016-17 | Perfformiad Blynyddol 2017-18 | Perfformiad Blynyddol 2018-19 hyd yma | Symudiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd | **THS/011a** Canran prif ffyrdd (dosbarth A) sydd mewn cyflwr gwael | 4.40 | 3.50 | 3.1 | 3.5 | 3.2 | | ⇧ |
| Priffyrdd | **THS/011b** Canran ffyrdd (dosbarth B) sydd mewn cyflwr gwael | 4.70 | 3.70 | 3.4 | 3.9 | 3.8 | | ▭ |
| Priffyrdd | **THS/011c** Canran ffyrdd (dosbarth C) sydd mewn cyflwr gwael | 14.70 | 14.2 | 15.8 | 15.2 | 14.1 | | ▭ |
| Priffyrdd | **THS/009** Nifer o ddyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn I atgyweirio holl ddiffygion ar lampau stryd | 2.70 | 3.50 | 2.76 | 2.52 | 2.77 | 2.6 | ⇩ |
| Priffyrdd | **PB8** Canran o ddigwyddiadau o ddifrod peryglus i ffyrdd a phafinau atgyweirwyd neu wneuthpwyd yn ddiogel o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd. | 97.20 | 97.00 | 97.8 | 98 | 98 | 98 | ▭ |
| Priffyrdd | **PB9** Canran o'r archwiliadau diogelwch wedi eu cwblhau o fewn y cyfnod penodedig. | 98.30 | 98.00 | 99 | 99 | 99 | 99 | ▭ |
| Gwasanaethau Stryd | **STS/005a** Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd | 73.5 | 70.65 | 76.26 | 75.7 | 71.95 | 74.5 | ⇧ |
| Gwasanaethau Stryd | **STS/005b** Canran y priffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyr sydd a'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol | 93.5 | 94.3 | 96.7 | 96.55 | 94.10 | 98.04 | ⇧ |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Stryd | **STS/006** Canran o ddigwyddiadau gwaredu slei bach ar dir perthnasol wedi clirio o fewn 5 diwrnod gwaith I'r amser hysbyswyd | 97.3 | 96.5 | 96.50 | 97.90 | 97.00 | 95.30 | ⇩ |
| Gwasanaethau Stryd | **PB15** Canran o'r graffiti/posteri sy'n ymguddio arwyddion traffig ac yn achosi peryglon, glanhawyd/cliriwyd o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd. | 100 | 100 | 100.00 | 100 | 100 | 100 | ▭ |
| Gwasanaethau Stryd | **PB16** Canran o'r graffiti/posteri hiliol/tramgwyddol ar eiddo'r Cyngor, | 100 | 100 | 100.00 | 100 | 100 | 100 | ▭ |
| Gwastraff ac Ailgylchu | **WMT/004** Canran y gwastraff trefol yrrwyd I'w dirlenwi | 45.94 | 43.33 | 34.34 | 30.62 | 24.33 | 17.30 | ⇧ |
| Gwastraff ac Ailgylchu | **WMT/009** Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei | 54.3 | 55.25 | 58.7 | 62.34 | 60.01 | 64.33 | ⇧ |
| Gwastraff ac Ailgylchu | **PB51** Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol | 30.79 | 35.45 | 41.44 | 40.5 | 44.34 | 44.1 | ▭ |
| Gwastraff ac Ailgylchu | **PB60** Uchafswm tunelledd gwastraff pydradwy a dirlenwir (Lwfans tirlenwi) | 19650 | 18603 | 8147 | 16989 | 8103 | 2276 | ⇧ |

| Gwasanaeth | Pennawd | Perfformiad Blynyddol 2013-14 | Perfformiad Blynyddol 2014-15 | Perfformiad Blynyddol 2015-16 | Perfformiad Blynyddol 2016-17 | Perfformiad Blynyddol 2017-18 | Ebrill i Gorffennaf 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | Elw yn erbyn y targed | £120,000 | £21,000 | -£34,000 | £95,619 | £81,695 | -£22,775 |

| Gwasanaeth | Pennawd | Perfformiad 2016-17 | Perfformiad 2017-18 | Perfformiad Ebrill - Gorffennaf 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | **BC-1** Arolwg bodlonrwydd y cwsmer, y ffigwr ar gyfartaledd a roddir gan gleientiaid am eu gwasanaeth rheolaeth adeiladu (ffigwr roddwyd allan o uchafswm sgôr bodlonrwydd o 10) | 9.3 | 9.6 | 9.7 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | **BC-2** % y ceisiadau Rheolaeth Adeiladu cynlluniau llawn a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn | 92.5 | 95.7 | 92.5 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | **BC-3** Nifer y dyddiau ar gyfartaledd a gymerwyd i wirio cais cynlluniau llawn (penderfyniad cyntaf) | 15.0 | 16.1 | 13.6 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | **BC-4** Amser ymateb i ymdrin â strwythurau peryglus, ar ôl hysbysiad (oriau) | 1.8 | 2 | 2 |